



Centre for Alternative Technology Canolfan y Dechnoleg Amgen

TAFLEN WAITH TYFU ORGANIG

Ewch i'r polytwnnel ac wedyn drwy **DWLL Y DWRCHEs DDAEAR** (yn ddigon araf deg i edrych yn ofalus ar yr hyn sydd ar ddangos y tu mewn iddo. Bydd hyn yn dod â chi at ddechrau'r ardd.

Y broblem fwyaf sydd gan arddwyr yw ceisio rheoli'r chwyn a'r plâu sy'n bwyta'r planhigion a bwydo'r pridd.

Pa ficro-organebau y gellwch eu gweld ar ddangos yn nhwll y dwrches ddaear ac ar ba chwyddhad?

Pa waith buddiol y bydd y creaduriaid yma'n ei wneud?

Beth sy'n digwydd i'r creaduriaid hyn pan fydd plaladdwyr yn cael eu defnyddio?

Beth mae'r geiriau 'tyfu organig' yn ei olygu i chi?

Rhowch enghraifft o gadwyn fwyd, gan ddechrau hefo planhigion a gorffen hefo mamolyn.

Edrychwch ar yr arddangosfa ynglŷn â **RHEOLI PLÂU**.

Pa greaduriaid ysglyfaethus sy'n fuddiol i'r garddwr? (nid dim ond y rhai rydym yn eu dangos yma)

Edrychwch ar y **BINIAU COMPOST** yn yr arddangosfa. Dewiswch un ohonynt a gwnewch nodiadau a brasluniau fel y byddwch yn gallu gwneud un gartref neu yn yr ysgol.

Bydd yr holl bethau yn y biniau compost yn pydru. Mae llawer iawn o ddefnydd organig yn cael ei droi'n gompost. Gwnewch restr o, fan leiaf, chwe gwahanol fath o bethau y gellwch eu hailgylchu'n gompost.

Os na fydd gan bobl finiau compost, beth sy'n digwydd i'r pethau hyn? Ble maen nhw'n cyrraedd yn y pen draw?

Beth yw'r manteision o roi'r holl ddefnydd organig yma yn y tomennydd compost?

Yn y Ganolfan rydym yn compostio ein carthion, ond byddwn ni'n eu cadw ar wahân i'r compost arall ac ni fyddwn fyth yn eu rhoi ar y letys. Pam hynny, yn eich barn chi?

Beth sy'n arfer digwydd i garthion yng ngwledydd Prydain? Ble maen nhw'n cyrraedd yn y pen draw?

Ar yr ychydig erwau fan hyn yng Nghanolfan y Dechnoleg Amgen, mae amrywiaeth enfawr o rywogaethau pryfaid, adar, mamolion bach, planhigion. Pam, yn eich barn chi, fod cymaint o fioamrywiaeth yma?

Beth yw'r peryglon ar gyfer y dyfodol os byddwn ni'n dal ati i ffermio â chemegau?

Beth fyddai'r manteision o dyfu peth bwyd yn organig yn eich gardd gefn?

Yn arddangosfa Y Cartref Cyfan, mae "llifau'r ardd" yn dangos sut y gallai gardd gael ei defnyddio at wahanol swyddogaethau. Sawl gwahanol ddefnydd y gallech chi eu gweld a beth ydyn nhw?

Sut y gallech ailgynllunio'ch gardd i gynhyrchu bwyd, i hybu bywyd gwylt ac i fod yn lle dymunol i ymlacio?